WALTERS



# CYCHWYN GWAITH PARATOI

Hen siopau Marks and Spencer/Dorothy Perkins

RHONDDA CYNON TAF

**Stryd y Taf, Pontypridd**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penodi Walters i ddymchwel hen siopau Marks and Spencer a Dorothy Perkins ar Stryd y Taf yng nghanol tref Pontypridd. Dechreuodd Walters ar y gwaith o baratoi yr adeiladau ar gyfer cael eu dymchwel ddiwedd mis Mawrth 2023.



## CYNNYDD

Mae gwaith dymchwel strwythurol hen adeiladau siopau Marks and Spencer a Dorothy Perkins yn mynd rhagddo'n dda ac mae’r rhan fwyaf o’r gwaith wedi’i gwblhau.

Mae'r to a lloriau uchaf y ddau adeilad wedi cael eu tynnu ac mae gwaith ar y llawr isaf a'r seler yn mynd rhagddo’n dda.

Mae Walters yn gweithio tuag at gwblhau'r prif waith dymchwel strwythurol erbyn canol mis Hydref 2023.

Mae mynediad i Barc Coffa Ynysangharad ar hyd y bont droed ar gael trwy gydol y gwaith.

## GWAITH DYMCHWEL STRWYTHUROL

Mae craen 300 tunnell wedi cael ei ddefnyddio er mwyn i weithwyr medrus Walters ddymchwel yr adeiladau mewn ffordd sy’n cael ei rheoli.

Bydd gwaith datgymalu ar y llawr isaf a’r seler yn parhau hyd nes y bydd y gwaith wedi’i gwblhau ddechrau mis Hydref.

Bydd ffrydiau gwastraff yn parhau i gael eu didoli a’u symud i ganolfannau ailgylchu oddi ar y safle.

Gwaith sydd ar y gweill ar y safle:

- Cwblhau gwaith datgymalu ar y llawr isaf a’r seler yn hen adeiladau siopau Marks and Spencer a Dorothy Perkins.
- Cynnal gwaith diogelu rhag y tywydd a sicrhau bod yrarwynebau agored yn ddiogel.





## DIOGELWCH

Gall unrhyw fynediad heb awdurdod i'r safle arwain at anaf difrifol. Bydd y safle yn cael ei ddiogelu gan Walters er mwyn atal mynediad. Bydd gweithiwr/gweithwyr diogelwch ar y safle y tu allan i oriau gwaith arferol. Serch hynny, dyma ofyn i chi barhau i fod yn wyliadwrus a rhoi gwybod am unrhyw ddifrod neu amheuaeth o fynediad heb awdurdod ar unwaith i garfan y safle drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod.

## MANYLION CYSWLLT WALTERS AR Y SAFLE

**Goruchwyliwr y Safle**
07977 197121

**Prif Swyddfa Walters**
01685 815100

Os oes cwestiynau gyda chi ynglŷn â gwaith ailddatblygu’r hen siopau yn 97-102 Stryd y Taf, e-bostiwch PorthyDe@rctcbc.gov.uk